

Yn Mwrdeistref Sirol Caerffili, hoffem ni ddathlu'r ffaith bod ein poblogaeth hŷn yn cynyddu, gan gydnabod bod hyn yn gyflawniad gwych.

Yn 2021, yn ôl y Cyfrifiad (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol), roedd gan Gaerffili 35,500 o bobl dros 65 oed, gyda 15,600 o'r rheiny dros 75 oed.

Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru rhwng 2021 a 2041, bydd y boblogaeth dros 65 oed yn cynyddu 24.7% a'r boblogaeth dros 85 oed yn cynyddu 68.8%.

Mae pobl hŷn yn ased i'n cymuned; rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfraniad maen nhw'n ei wneud i'n cymdeithas. Er enghraifft, mae llawer o grwpiau cymunedol a chymdeithasol yn cael eu rhedeg neu eu cynorthwyo gan bobl o amrywiaeth o oedrannau. Rydyn ni am barhau i gynorthwyo a hyrwyddo hyn ynghyd â rhannu eu sgiliau a'u profiad.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n barod i gwrdd â'r heriau posibl, wrth i'n poblogaeth heneiddio a sicrhau bod pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw er mwyn ffynnu a chadw'n iach.

Rydyn ni am sicrhau bod safbwyntiau a barn pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed, gan ddatblygu'r strwythurau a'r prosesau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Bydd y dull hwn yn galluogi pobl hŷn i gael cyfleoedd i fod yn rhan o wneud penderfyniadau a gall ddylanwadu'n weithredol ar ddylunio a chreu arloesedd a newid.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn ac i ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn, Sefydliad Iechyd y Byd.

Rydyn ni wedi creu, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, gynllun gwaith ac wedi cytuno i roi'r camau canlynol ar waith:

- Cyd-drefnu cyfarfodydd grŵp llywio misol y Gymuned o Blaid Pobl Hŷn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan barhau i adeiladu ar y mecanweithiau presennol i gynnwys pobl hŷn.
- Gweithio mewn partneriaeth i nodi a deall y gwaith presennol o ran Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili a chasglu'r wybodaeth hon i nodi bylchau.
- Datblygu cyfleoedd pontio'r cenedlaethau gydag ysgolion a phartneriaid allweddol eraill.
- Defnyddio dysgu, mewnwelediadau a data wedi eu datblygu o fewn ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac offer ymgysylltu eraill i gynorthwyo'r broses ymgeisio ar gyfer Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn.
- Sefydlu diwylliant o welliant parhaus ar gyfer gwaith Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn, hyrwyddo a rhannu enghreifftiau o arferon da gyda'r rhwydwaith ehangach a'r cyhoedd.



Christina Harrhy

Prif Weithredwr



Y Cynghorydd Sean Morgan

Arweinydd y Cyngor